heddwch

haf 2009
rhif 50

cnd cymru

yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear

# Trident mewn Trwbl

**Yn rhifyn y gwanwyn o *heddwch* roedd gennym adroddiad am y gwrthwynebiad cynyddol i gynlluniau i 'foderneiddio' system arfau niwclear Trident Prydain (www.cndcymru.org). Mae lleisiau newydd wedi ymuno yn y gân erbyn hyn.**

**Am y tro cyntaf erioed, mae un o arweinwyr trydedd plaid Prydain (Nick Clegg) wedi ymuno â Phlaid Cymru a Phlaid Genedlaethol yr Alban i alw am beidio â chael olynydd i Trident, tra bod lleisiau dylanwadol o fewn dwy brif blaid Cymru yn dod yn fwy llafar hefyd.**

Yn awr, mae cyn-arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, yr Arglwydd Ashdown, a chyn-Ysgrifennydd Amddiffyn, yr Arglwydd Robertson wedi cynghori'r llywodraeth i ailystyried cynlluniau i adnewyddu ei fraw-atalydd Trident, gan ddweud mai'r nod ddylai fod 'dileu arfau niwclear'.

**Cyfrifoldeb**

Ysywaeth, ychydig iawn sydd a wnelo eu rhesymau â moesoldeb, ac maent yn dal i anwybyddu dyletswydd Prydain, o dan Erthygl VI o'r Cytundeb Atal Ymlediad Arfau Niwclear, i weithio tuag at fyd heb arfau niwclear. Byddai unrhyw system arfau niwclear (ni waeth beth fo'r gost) yn gwbl groes i'r dyletswydd cytundeb hwn, a'i gwneud hi'n fwy anodd atal ymlediad arfau niwclear.

**Hen bryd hefyd**

Mae'r holl ragrith ynglwn â bygythiad Gogledd Korea yn anwybyddu'r ffaith hanesyddol mai Prydain a gychwynnodd y ras arfau niwclear 'lorweddol' rhwng gwledydd sydd wedi mynnu cael arfau niwclear er mwyn statws yn unig (dim ond yn achos Rwsia ac America yr oedd 'braw-atal' yn ystyrlon). Heb Brydain, fyddai yna ddim cyfiawnhad dros i Ffrainc a China fod ag arfau niwclear 'annibynnol', gydag India, Pakistan, Israel, De Affrica ac yn awr, o bosib, Iran a Gogledd Korea yn dilyn yn sgil hynny. Ar unrhyw adeg yn yr hanner canrif ddiwethaf, gallai Prydain fod wedi rhoi'r gorau i esgus bod â braw-atalydd niwclear annibynnol, a chychwyn ras *ddiarfogi* niwclear lorweddol.

**Cost**

Does yr un o'r tröedigion diweddar i'r achos yn erbyn olynydd i Trident yn dadlau dim o hyn. Mewn adroddiad dylanwadol diweddar ar gyfer y llywodraeth, mae cyn-Bennaeth y Staff Amddiffyn, yr Arglwydd Guthrie, yn wir yn dadlau am fwy o arian cyhoeddus er mwyn ehangu'r lluoedd arfog o 98,000 i 120,000 a sefydlu 'llu sefydlogi newydd i fynd i'r afael â sefyllfaoedd fel Afghanistan ac Iraq wedi'r rhyfel'. Iddo ef ac eraill, efallai y bydd yn rhaid cael gwared o Trident er mwyn cadw'r ddysgl ariannol yn wastad a hwyluso gwario mwy o arian ar bethau milwrol.

Er gwaetha'r ymresymu anfoesol yma, mae CND Cymru yn croesawu'r gefnogaeth i atal y cynllun i brynu olynydd i Trident. Ymddengys yn annhebygol yn awr y gall y cynnydd mewn arfau niwclear mae'r llywodraeth yn ei gynllunio fynd yn ei flaen – yn enwedig gan fod llywodraeth yr Alban wedi adnewyddu ei haddewid i rwystro unrhyw ymgais i leoli'r Trident newydd yno, drwy ba fodd bynnag a fydd ar gael iddi.

**(gweler www.guardian.co.uk/uk/feedarticle/8580893)**

**John Cox**




## Yr Alban yn Gwrthwynebu Trident

Mae'r Prif Weinidog, Alex Salmond, wedi cadarnhau y bydd llywodraeth yr Alban yn 'ymladd yn erbyn lleoli cenhedlaeth newydd o daflegrau Trident yn yr Alban – yn enwedig gydag arolygon barn yn dangos gwrthwynebiad i'r cynlluniau dros y ffin' gan rybuddio fod ei lywodraeth yn bwriadu atal unrhyw ymgais i leoli arfau niwclear newydd yn yr Alban.

Mewn gwrthdaro chwerw gydag arweinydd y Ceidwadwyr, David Cameron, a oedd wedi hawlio y gallai llywodraeth San Steffan leoli arfau niwclear unrhyw le y mynnai ym Mhrydain, hawliodd Prif Weinidog yr Alban nad oedd 'mandad o blaid lleoli'r taflegrau ar dir yr Alban', gan ychwanegu: 'Fe fyddai fel pe bawn i'n dweud, fe awn ati i suddo holl garbod deuocsid yr Alban yn afon Tafwys, ond wnawn ni ddim trafferthu i ymgynghori â David Cameron.'

Os na all yr Alban, fel yr hawlia David Cameron, gael gwared o arfau niwclear tra'n dal yn rhan o'r 'DU', bydd ymgyrch CND yn erbyn olynydd i Trident yn cael ei sugno i mewn i drobwll yr holl ddadlau sydd yn mynd i fod cyn y cynhelir y refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban.

***y tu fewn:***

* dim profion UAV dros y Canolbarth (chwith)
* heddwch-gwely yng Nghaerdydd
* newyddion o bedwar ban
* meiri Cymru yn ymuno dros heddwch
* Wylfa

*a mwy...*

## heddweithredu:

***Cysylltwch â'ch AS a gofyn iddo/iddi arwyddo un neu fwy o'r cynigion EDM a restrir ar dudalen Seneddol gwefan CND Prydeinig, www.cnduk.org**
**Os hoffech chi dderbyn copi o'r rhain drwy'r post, cysylltwch ag CND Cymru (gweler tud. 8).**
**Cyfeiriadau: Eich AS, Tw'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA**
**ebost, gweler: www.parliament.uk neu www.WriteToThem.com**

***Arwyddwch y ddeiseb ar-lein a lansiwyd ar y cyd â Medact – Na i Trident, Ie i Gytundeb Arfau Niwclear – fel rhan o'r Ymgyrch Ryngwladol i Ddileu Arfau Niwclear (ICAN). www.cnduk.org Am fersiwn ddwyieithog, cysyllter ag CND Cymru (gweler tud. 8)**

***Os am sgrifennu at bapurau newydd Prydeinig am y materion hyn, gweler www.nuclearpolicy.info/Media/media.html am fanylion cysylltu, ond peidiwch ag anghofio am eich papur lleol – mae mwy o bobl yn darllen pob gair o'r rheini na phapurau Llundain.**
**Sgrifennwch hefyd at y Western Mail**
**e: readers@mediawales.co.uk**
**neu'r Daily Post:**
**letterswales@dailypost.co.uk**

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch, chyfiawnder a diarfogi rhyngwladol, a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgylchedd**

**heddwch**

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**


**Golygydd:**

Jill Gough
CND Cymru
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**

Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**

Redkite Print
01591 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com



**Nid yw cynnwys heddwch o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu lythyron at y golygydd.**




# Mae ar Gymru eich hangen!

**Da chi, dewch i Aldermaston i atal arfau niwclear newydd**

*Annwyl Ffrindiau,*

Mae Trident Ploughshares yn trefnu gwarchae mawr ar Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston ddydd Llun y 15fed Chwefror 2010 am ddiwrnod cyfan, o 7am, ac mae arnom angen eich help chi.

Cafwyd protestiadau yn Aldermaston byth er iddo agor yn y 1950au. Digwyddodd rhai o'r gorymdeithiau gwrth-niwclear enwocaf ym Mhrydain yn Aldermaston. Mae saith clwyd i mewn i'r ffatri fomiau niwclear anferth hon a bydd gwahanol grwpiau yn dwyn gwarchae ar bob un ohonynt. Byddem yn gwir werthfawrogi gwarchae o Gymru ar y Glwyd Adeiladu, i alw sylw at fygythiad arfau niwclear Prydain ac i alw ar y llywodraeth Brydeinig i barchu'r gyfraith ryngwladol a diarfogi ar unwaith.

Gallai'r llywodraeth Brydeinig helpu i ddatrys problem ddyrys diarfogi pe bai'n cytuno i ddileu Trident yn hytrach na cheisio olynydd iddo. Mae gan yr Alban lywodraeth wrth-niwclear eisoes sydd am gael gwared o Trident. Disgwylir etholiad cyffredinol yn 2010 a Chynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad ym mis Ebrill y flwyddyn honno lle bydd cynnydd gwirioneddol yn hanfodol er mwyn sicrhau diarfogi mewn gwledydd a fu ag arfogaethau niwclear ers amser maith ac atal creu rhai newydd. Gyda galwad yr Arlywydd Obama am ddiarfogi yn ennyn gobaith, rhaid i ni sicrhau fod Prydain yn chwarae ei rhan drwy roi terfyn ar deithiau patrol 24-awr Trident a thrwy atal y gwaith ar olynydd i Trident yn Aldermaston.

Credwn y bydd gwarchae mawr sy'n arddangos gwrthsafiad cryf, di-drais yn Aldermaston yn bwysig iawn ar yr adeg dyngedfennol yma. Mae arnom angen lleisiau huawdl, call a brwdfrydedd ac egni pobl o Gymru i ymuno â'r gwarchae. Mae arnom eich angen chi yno.

Trident Ploughshares (www.tridentploughshares.org) sy'n cyd-drefnu'r gwarchae, gyda chefnogaeth CND a grwpiau heddwch a chyfiawnder eraill. Bydd grwpiau'n ymdrefnu ac yn eu hyfforddi eu hunain, gan adeiladu eu dyfeisiau cloi neu fathau eraill o offer blocedio eu hunain a chyrraedd yn barod i gychwyn y gwarchae am 7am fore Llun y 15fed Chwefror. Bydd Trident Ploughshares yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ac yn casglu pobl o orsafoedd heddlu, a bydd pawb yn ymgynnull wedi'r weithred am fwyd ac i adrodd yn ôl. Mwy o fanylion yn nes ymlaen.

Os oes arnoch angen help gyda chynllunio a hyffordi, cyngor am lety ac ati, da chi, cysylltwch â fi. Bydd pecyn cefndir ar gael yn fuan a fydd yn cynnwys mapiau, cyngor cyfreithiol a gwybodaeth ddefnyddiol arall.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych cyn bo hir,

***cariad a heddwch,***

***Angie Zelter,***

**Trident Ploughshares**

**m: 078-3535-4652**

**e: reforest@gn.apc.org**

**heddweithredu:** **cysylltwch â Jill Gough CND Cymru (gweler Cysylltiadau tud. 8) os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan a/neu os byddai'ch grwp neu chi fel unigolyn yn fodlon cyd-drefnu gwarchae Cymru. Bydd angen cymorth ymarferol i drefnu a sicrhau ein bod yn cydweithio mor llwyddiannus ag y gwnaethom yn 2007 a 2008 yn Faslane.**

# Yn Hyrwyddo Heddwch




Rydw i'n hynod o falch o wedi cael fy ail-ethol i weithio fel un o Aelodau Senedd Ewrop dros Gymru am bum mlynedd arall ac hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Mae'r Senedd Ewropeaidd yn unigryw fel yr unig corff rhyngwladol mawr sydd yn cael ei ethol yn uniongyrchol gan y bobl. Ac mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) hefyd yn eisiampl o greu cymod parhaol rhwng gwledydd a fu unwaith yn rhyfela yn erbyn ei gilydd. Mae hwn yn gyfnod hanfodol yn natblygiad yr UE.

Ym mis Hydref mi fydd pobl Iwerddon yn pleidleisio am yr eildro ar Gytundeb Lisbon ar ol ei wrthod y llynedd. Os fydd y bleidlais yn 'ie' y tro hwn fel y disgwylir, mi fydd y cytundeb newydd yn dod i rym. Mae'n nodi "Amcan yr Undeb yw i hyrwyddo heddwch, ei werthoedd a lles ei bobl". A chredaf y dylai ein ffocws fod ar rol yr UE yn hyrwyddo heddwch, yn enwedig wrth nesau at Gytundeb ar Atal Llediad Arfau Niwcliar (NPT) yn 2010. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod unrhyw Bolisi Amddiffyn a Diogelwch Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd yn taclo'r gwir bygythiadau sy'n ein gwynebu - sef tlodi, anghyfiawnder a newid hinsawdd. Golygir hyn yn hytrach na chreu byddin milwrol bod yr UE yn creu corfflu sifil heddychlon ac yn datblygu ei rol yn adeiladu heddwch mewn partneriaeth gyda'r Cenedloedd Unedig.

Yn y Senedd Ewropeaidd newydd byddwn unwaith eto yn sefydlu grwp heddwch i ddod ag aelodau etholedig at ei gilydd o wahanol wledydd a phleidiau sydd yn ymrwymiedig i weithio dros heddwch a diarfogi niwcliar. Byddwn yn parhau i ymgyrchu dros Ewrop ddi-niwcliar ac mae atal ailosod Trident eisioes yn ffocws mawr i ni. Mi fyddaf yn Aldermaston ar 15 Chwefror blwyddyn nesaf i gymeryd rhan yn y gwarchae mawr a rydw i'n siwr y bydd ASE'au eraill yn ymuno i adlewyrchu'r gwrthwynebiad cynyddol ar bob lefel i arfau dinistr enfawr y Deyrnas Unedig. Ni allwn ildio nawr - rydym yn rhy agos at ennill.

**Gyda'n gilydd, gallwn ei gyflawni.**


**Jill Evans Cadeirydd CND Cymru**

# Pawb o blaid i ddweud 'Na'

**Mae'r arolwg Guardian/ICM diweddar wedi dangos yn glir yr hoffai 54% o bobl y gwledydd hyn weld Prydain yn cael gwared o'i harfau niwclear, ac mai dim ond 42% sydd am weld cenhedlaeth newydd o arfau niwclear yn cymryd lle Trident.**

Mae'n arwyddocaol fod y canlyniadau hyn yn deillio o gwestiwn nad oedd yn cyfeirio at gostau posibl y system, sy'n awgrymu fod y cytundeb cynyddol nad oes angen arfau niwclear ar Brydain yn mynd y tu hwnt i wrthwynebiad i gost y fath ddatblygiad.

'Mae'r Pwyllgor Materion Tramor a 160 o ASau wedi galw am ddadl ar hyn ac eto mae'r llywodraeth fel pe bai am fwrw ymlaen fel pe bai dim wedi newid – dim dirwasgiad, dim ymgais ddiarfogi gan Obama, dim newid ym marn y cyhoedd. Rhaid i hyn newid cyn iddynt ymrwymo £2bn arall i Trident yn y misoedd nesaf.



# Protest yn erbyn Trident yn Senedd Westminster

**Cynhaliodd tri ar ddeg o ymgyrchwyr Trident Ploughshares a Menywod mewn Du (Llundain) brotest dawel, urddasol yn Lobi Ganolog Palas Westminster ym mis Gorffennaf. Roedd y weithred yn brotest yn erbyn y penderfyniad anghyfreithlon ac annemocrataidd ynglwn ag olynydd i'r system arfau niwclear Trident a wnaed gan y llywodraeth y tu ôl i ddrysau caeëdig. Safodd y protestwyr yn ddistaw mewn cylch yn gwisgo crysau-t yn dwyn y neges 'Disarm Nuclear Weapons Now', wrth aros i lobïo eu ASau.**


Roedd eu gweithred yn tanlinellu'r angen am i'r llywodraeth ymuno yn y ddadl boeth sy'n digwydd eisoes ymhlith sylwedyddion, arbenigwyr milwrol a diogelwch, ac aelodau o'r cyhoedd ynglwn â'r cynllun i ymrwymo £76bn i sicrhau olynydd i system arfau niwclear Trident. Disgwylir penderfyniad ar y cam nesaf yn y broses ym mis Medi, pan na fydd y Senedd yn cyfarfod.

Dywedodd Angie Zelter, un o brotestwyr Trident Ploughshares, 'Mae Prydain yn torri'r Cytundeb Atal Ymlediad a Chytundebau Genefa. Os ydy'r llywodraeth yn ddiffuant ynglwn â cheisio atal terfysgaeth, yna dylai gael gwared o'i harfau terfysgol torfol ei hunan ac atal ei pharatoadau ar gyfer llofruddiaeth dorfol, a pheidio â diweddaru Trident na phrynu olynydd iddo. Dim ond ymrwymiad diffuant a gonest i gyfraith ryngwladol a all ddod â'r heddwch a'r cyfiawnder sydd eu hangen ar y byd er mwyn i ni allu cydweithredu'n llawn i ddatrys y llu o argyfyngau, fel anhrefn hinsawdd, sy'n ein hwynebu.'

Yn ôl amserlen bresennol y Weinyddiaeth Amddiffyn, bydd gweinidogion yn penderfynu ar gwmpas a galluoedd y system a fydd yn cymryd lle Trident (y 'Glwyd Ddechreuol') yn ystod y gwyliau Seneddol ym mis Medi, pan nad oes gobaith y gall Tw'r Cyffredin archwilio'r penderfyniad. Disgwylir y bydd yn penderfyniad yn ymrwymo £2.1bn a mwy i'r rhaglen. Mae mwy na 160 o ASau bellach wedi arwyddo EDM 660 sy'n galw am ddadl seneddol cyn penderfynu symud ymlaen i'r cam nesaf yn y broses. Argymhellodd y Pwyllgor Materion Tramor ddadl seneddol bellach hefyd yn ei adroddiad diweddar ar ddiogelwch byd-eang ac atal ymlediad. Hyd yn hyn, mae'r llywodraeth wedi gwrthod caniatáu dadl, er y bydd y penderfyniad yn digwydd ar adeg sensitif, ychydig cyn Cynhadledd y Blaid Lafur.

# Cam Cyntaf ond dim ond Cam Cyntaf

**Mae'r Arlywydd Obama wedi cydnabod mai diarfogi gan y pwerau niwclear sefydliedig yw'r ffordd orau o wrthbwyso ymlediad arfau niwclear, a'i bod hi'n amlwg fod diarfogi niwclear yn angen brys. Mae'r Arlywydd Medvedev wedi camu i'r maes hefyd, ac mae llywodraeth Rwsia wedi derbyn y nod o fyd heb arfau niwclear.**



Mae Obama a Medvedev yn bwriadu cwtogi ar niferoedd ergydion niwclear sy'n barod i'w defnyddio o ryw 1,500 - 1,675 o'i gymharu â'r cytundeb cyfredol o 1,700 - 2,200 o ergydion yr un. Mae'r cytundeb yn cynnwys mesurau gwirio, na chynhwyswyd mewn cytundebau cwtogi ar arfau diweddar ac sy'n hanfodol er mwyn magu ymddiriedaeth a hyder wrth leihau niferoedd ergydion niwclear.

Mae rhai wedi beirniadu cytundeb yr UD/Rwsia, yn cynnwys Alice Slater, un o sylfaenwyr Abolition 2000, a ddywedodd: 'Pe bai Obama wedi bod yn fodlon hepgor tarian daflegrau rithiol yr UD (nad yw'n cynnig unrhyw amddiffyn yn erbyn taflegrau niwclear a allai gael eu tanio yng nghanol cwmwl o daflegrau eraill camarweiniol), mae'n ddigon posibl y gallai Rwsia fod wedi cytuno i doriadau mwy sylweddol yn arfogaeth y ddwy wlad sydd ar hyn o bryd yn gyfamswm o ryw 25,000 o ergydion niwclear. Dim ond rhyw 1,000 yn ychwanegol sydd yn meddiant y saith pwer niwclear arall—Prydain, Ffrainc, China, India, Pakistan, Israel a Gogledd Korea. Pe bai'r UD a Rwsia yn cytuno i leihau eu stoc o fomiau niwclear i 1,000 neu lai, byddai ganddynt yr awdurdod moesol angenrheidiol i ddod â'r holl wledydd sydd ag arfau niwclear at y bwrdd i drafod dileu arfau niwclear.'

Mae cytundeb Mosgo hefyd yn anelu at gael gwared o draean o systemau tanio'r ddwy wlad. Yn y cyfamser, mae Prydain yn bwriadu cadw ei llynges o bedair llong danfor, y mae wedi ei chynnal ers y 1960au. Os ydy Gordon Brown yn cefnogi'r dechneg o 'arwain drwy esiampl', yna yn hytrach nag arwyddo'r cytundebau dechreuol y tu ôl i ddrysau caeëdig ym mis Medi, dylai ohirio'r holl broses ar unwaith, a chychwyn ar arolwg cyflawn o ddyfodol system arfau niwclear Prydain.

# 'Tu hwnt i'r ffin' ond uwchlaw Cymru

**Mae defnyddio awyrennau di-beilot fel arfau rhyfel mewn gwrthdaro byd-eang wedi cael ei gwestiynu gan un o brif farnwyr Prydain. Dywedodd yr Arglwydd Bingham, prif arglwydd y gyfraith tan y llynedd, fod rhai arfau 'mor greulon nes bod y tu hwnt i ffiniau goddefgarwch dynol'. Mewn cyfweliad â'r Sefydliad Cyfraith Ryngwladol a Chymharol, cymharodd yr Arglwydd Bingham yr awyrennau hyn, sydd wedi lladd miloedd o sifiliaid yn Afghanistan, Pakistan a Gaza, â bomiau clwster a ffrwydron tir. Ac eto, yma yng Nghymru, mae'r trethdalwr yn talu am ymchwil i'w defnydd i ddibenion milwrol.**

Ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad (LlyC) ar 'Gerbydau Hedfan Di-beilot' (UAV) yr haf yma, fel paratoad ar gyfer sefydlu parth profion gan gwmni QinetiQ uwchlaw 500 milltir sgwâr o orllewin Cymru (rhwng Aberporth a Mynydd Epynt). Er bod y pwyslais ar ddefnydd *sifil* cerbydau UAV yn y dyfodol, a'r buddiannau i economi Cymru, mae'r rhan fwyaf o ymchwil UAV yn filwrol, gyda'r nod o greu'r genhedlaeth nesaf o awyrennau ysbïo ac ymosod di-beilot. Mae 80% o werthiant byd-eang QinetiQ yn filwrol. Bydd yr ehediadau cyntaf a gynlluniwyd ym Mharc Aberporth yn cymryd lle ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Bydd y parth hedfan yn caniatáu i awyrennau UAV hedfan ar unrhyw awr o'r dydd neu'r nos i roi prawf ar systemau ysbïo, ymosod ac osgoi gwrthdrawiad. Hyd yn hyn, gwariwyd £9 miliwn o arian y Cynulliad (ein harian ni) ar ddatblygu Aberporth a chrewyd 18 o swyddi (dim ond 10 o rai lleol). Yn 2004, roedd LlyC wedi 'addo' 230 o swyddi.

Defnyddir awyrennau UAV Predator yr UD yn Irac, Afghanistan a Phakistan gyda bomiau a thaflegrau wedi eu tywys gan laser, yn aml wedi eu rheoli o ganolfan yn Nevada, UDA. Ym Mhakistan, lladdwyd 14 a arweinwyr Al Qaeda a 700 o sifiliaid yn yr un cylch gan fyddin yr UD, oll drwy ymosodiadau UAV.

**Opsiynau cynaliadwy**

Mae Jeremy Clulow, gyda Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bro Emlyn, yn ddim ond un o lawer sy'n gwrthwynebu militareiddio economi gorllewin Cymru. Galwodd ar LyC i fuddsoddi mewn technolegau sifil uwch-dechnegol fel cynhyrchu ynni cynaliadwy a gweithgynhyrchu, a fyddai'n dod â llawer mwy o swyddi tymor-hir i bobl leol. Y cwbl a wnaeth y £9 miliwn o arian y trethdalwr oedd porthi diwydiant arfau a oedd eisoes yn fras.

*(1) LlyC Is-bwyllgor y Cabinet ar Swyddi a Sgiliau – JS(05-06)06*




**heddweithredu:**

Sgrifennwch at eich AS neu'ch AC. Does yr un AS neu AC lleol wedi siarad yn erbyn gweithgareddau milwrol Parc Aberporth yn gyhoeddus, na'r parth hedfan UAV arfaethedig. Lleisiwch eich barn a gofynnwch iddynt gynrychioli'ch barn chi, nid dim ond eu barn eu hunain. Am fanylion cyswllt ASau ac ACau, gweler tud. 1.

Ymunwch â'r ymgyrch, gweler: www.bepj.org.uk

# Nodi'r hawl i wrthod lladd

**Yn yr Ardd Heddwch Genedlaethol ger y Deml Heddwch yng Nghaerdydd y dadlennwyd maen coffa i Wrthwynebwyr Cydwybodol yn 2005. Roedd yn gwbl addas felly bod 50 o bobl wedi cynnull yno ar 15 Mai eleni i ddathlu Dydd Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol unwaith eto. Fe'n hatgoffwyd o'r modd y gall canu caneuon fod yn fodd i uno yn y rhan o'r digwyddiad a gynhaliwyd yn yr awyr agored, wrth i Gôr Cochion Caerdydd a Frankie Armstrong forio canu tra'r oedd plethdorch o babïau gwyn a choch yn cael eu gosod wrth y maen.**




Yn ôl yn adeilad y Deml, fe glywsom Bruce Kent yn adrodd hanesion ysbrydoledig am wrthwynebwyr cydwybodol yn ystod y Ddau Ryfel Byd yn y ganrif ddiwethaf; Robin Brookes yn siarad am ymrwymiad parhaus y Saith Heddychwr Treth i ennill yr hawl i sicrhau bod cyfran fwy o'n harian yn gallu cael ei gwario ar ddewisiadau heddychlon yn lle rhyfel, a George Crabb yn darllen tystiolaeth rymus o 2008 gan Israeliad a oedd yn refusenik.Cadeiriwyd y trafodion gan Bethan Jenkins, AC. Gyda'i chefnogaeth hi, mae Datganiad Barn wedi cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ceisio'i gydnabyddiaeth flynyddol i'r Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol; a chrëwyd e-ddeiseb i'w chyflwyno i'r Cynulliad, sy'n agored i aelodau'i llofnodi, a honno'n ddeiseb i'r un perwyl.

Mae Bethan hefyd wedi defnyddio'i blog personol a'i phresenoldeb ar Facebook i ymgysylltu ag eraill ynghylch nodi hawl pobl i wrthod lladd.

**Stephen Thomas**

**heddweithredu:** gofynnwch i'ch ACau i arwyddo Datganiad Barn y Cynulliad, ac arwyddwch yr e-ddeiseb ar wefan y Cynulliad.
Cyfeiriad: Eich AC, Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd CF99 1NA
www.assemblywales.org/memhome www.bethanjenkinsblog.org.uk/conscientious-objectors-gwrthwynebwyr-cydwybodol





## Gardd Heddwch Llandrindod

Gosodwyd llechen yn yr Ardd Heddwch, y Pafiliwn, Llandrindod. Mae'n nodi'r fan lle mae CND Llandrindod a'r Cylch, dros y blynyddoedd, wedi plannu coed i ddangos eu hymrwymiad i sefyll dros heddwch yn y byd a'u gwrthwynebiad i arfau a phwer niwclear. Wrth ddadlennu'r llechen, ategodd llywydd y grwp, Vera Jones, eu hymrwymiad i'r egwyddorion hyn. Mae coed wedi cael eu plannu yn yr ardd ers y 1980au, i nodi Dydd Hiroshima.

# Pererindod 2009 i Fynydd Epynt

**Mae Ardal Hyfforddi Milwrol Pontsenni ar Fynydd Epynt bellach yn cynnwys rhyw 31,000 erw o dir y Weinyddiaeth Amddiffyn a 6,000 erw o dir ar brydles gan Forest Enterprise. Dyma'r ardal hyfforddi milwrol drydedd fwyaf ym Mhrydain erbyn hyn.**

Ym 1940 cafodd Epynt ei ddwyn yn orfodol oddi wrth y bobl a oedd yn byw a gweithio ar y tir, Roedd llawer ohonyt yn perthyn i deuluoedd a oedd wedi byw ar Epynt erioed. Collodd 200 o Gymry Cymraeg, a gredai y caent ddychwelyd yno wedi'r rhyfel, eu cartrefi, a chwalwyd cymuned Gymraeg fyw.



Bron ddeg a thrigain o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae'r ardal yn dal i fod yn faes tanio ac yn llain hyfforddi diffaith ar gyfer milwyr. Mae milwyr o bedwar ban y byd wedi defnyddio'r ardal i ddysgu 'sgiliau' milwrol.

Yn awr, ceir bygythiad newydd i'r ardal wrth i gwmni profion arfau QinetiQ geisio caniatâd i hedfan 'cerbydau hedfan di-beilot' neu awyrennau ysbïo milwrol rhwng Aberporth ar lannau Bae Ceredigion ac Epynt. Mae llawer o bobl yr effeithir arnynt yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Phowys yn poeni'n ddirfawr am y peryglon a'r bygythion i'w preifatrwydd yn ogystal ag am foesoldeb y cynlluniau hyn.

Nodwyd 'Dydd y Fyddin' ar Fehefin y 27ain gan bererindod flynyddol Cymdeithas y Cymod ar draws Epynt. Aeth y grwp i Gapel y Babell lle'r arweiniwyd gwasanaeth gan y Parchedig Pryderi Llwyd Jones.

Meddai pererin cyson i Fynydd Epynt:

'Mae Cymru mewn perygl difrifol o fynd yn enwog fel lle ar gyfer dynion a menywod sy'n dysgu lladd ar orchymyn gwleidyddion – a phrin ein bod ni'n credu neu'n ymddiried yn llawer o'r rheini bellach.'

'Heddiw, rydym yn myfyrio ar heddwch, cyfiawnder, problemau amgylcheddol difrifol, a darparu digon i bob un a phob peth ar y ddaear allu byw arno.'

'Rwyf yn Gymro ac yn rhyng-genedlaetholwr. Nid Cymru fel maes hyfforddi milwrol a phrofi arfau yw'r hyn a fynnaf, na'r hyn y bu fy nghyndeidiau'n byw ac yn gweithio drosto chwaith. Mae gennym well breuddwydion ar gyfer ein plant a'n hwyrion.'

'Po gyntaf y dysgwn sut i gyfathrebu'n well rhwng grwpiau a chenhedloedd, y cyntaf oll y gallwn atal trais y tu fewn i'r cymunedau a rhyngddynt.'

Manylion:
**e: cymdeithasycymod@btinternet.com**
**y we: www.cymdeithasycymod.org.uk**

# Cylchoedd Cadarn Heddwch

**Bydd Sheikh Ahmad Dede a'i dderfisiaid chwyrlïol yn dod â bendithion heddwch ac undod y Sufi i Wobrau Ieuenctid Rhyngwladol y Mala Heddwch a gynhelir yn y Deml Heddwch, Caerdydd yn mis Medi.**

Hon fydd blwyddyn olaf y Gwobrau Ieuenctid yn eu ffurf bresennol. Dywedodd Pam Evans, sylfaenydd y Mala Heddwch, ei bod am i'r Gwobrau fod yn llai cystadleuol a 'hyrwyddo cymuned fyd-eang o ysgolion a grwpiau ieuenctid y Mala Heddwch'. Cyhoeddir manylion y cynllun newydd ym mis Medi.

Meddai Pam: 'Bydd gan Ysgol Mala Heddwch ymrwymiad i osod gweledigaeth a neges y Mala Heddwch mewn man canolog wrth graidd ei gwerthoedd. Rhan o hynny fydd hybu Addysg Heddwch. Anogir ysgolion i sefydlu Cynghorau Heddwch Ysgolion ac ymwneud â gweithgareddau heddwch.'

Cododd un o gefnogwyr y Mala Heddwch, Ruth Davies, a gerddodd ran o'r Camino de Santiago de Compostela yng ngogledd Sbaen eleni fel pererindod Mala Heddwch dros Heddwch Byd-eang, £1,000 mewn arian nawdd ar gyfer Gwobrau Ieuenctid eleni.

Enillwyr Gwobrau Ieuenctid Rhyngwladol y Mala Heddwch 2009:

Iau – Cyd-gyntaf: Ysgol Gynradd y Santes Helen ac Ysgol Gynradd Hafod, Abertawe;
Ail: Ysgol Gynradd Coaltown of Balgonie, Glenrothes, Fife, Yr Alban
Trydydd: Ysgol Babanod Eglwys Gadeiriol Sant Joseph, Abertawe
Clod – Ysgol Gynradd Clase, Abertawe

Uwch - Cyntaf: Rhaglen Cynnwys Ieuenctid Sandfields ac Aberafan, Port Talbot; Ail: Ysgol Uwchradd Trinity, Renfrew, Yr Alban; Trydydd: Canolfan Addysg Camu Ymlaen Abertawe.

**heddweithredu:** Am fynychu gwobrau eleni ar Fedi'r 14eg neu eisiau mwy o wybodaeth?
Cysyllter â'r Mala Heddwch: t: 01792 774 225
e: info@peacemala.org.uk
www.peacemala.org.uk

## Hur-filwyr corfforaethol - gweithredu EDM yn awr

Mae'r Ysgrifennydd Tramor, David Miliband, wedi ildio cyfrifoldeb am ffenomenon gynyddol y cwmnïau milwrol a diogelwch preifat drwy gynnig y dylai cymdeithas y diwydiant ei hun eu rheoli. I bob diben, byddai hynny'n golygu dim rheolaeth o gwbl. Da chi, gweithredwch drwy ofyn i'ch AS arwyddo EDM, math o ddeiseb seneddol, sy'n beirniadu cynnig y llywodraeth ac yn galw arni i ystyried system o drwyddedu a monitro. Mwy o wybodaeth ar-lein: http://www.caat.org.uk/emailbulletin/0906/corporate_mercenaries_edm.php




# Rhy dwym i gysgu

**Cynhaliwyd 'Clwydo dros Heddwch' yng Ngwesty Big Sleep Caerdydd ym mis Mai. Roedd y digwyddiad yn dathlu deugain mlwyddiant mis mêl John Lennon a Yoko Ono, a fu'n dathlu ym 1969 drwy 'glwydo dros heddwch' yn stafell 902 yng ngwesty Hilton Amsterdam. Roedd yn wasg yn dynn ar sodlau John a Yoko, gan gymryd yn ganiataol y byddai'r noethlymunwyr enwog yn caru ger bron y camerâu, ond dyna lle'r oedd y pâr priod newydd yn eu pyjamas yn siarad am heddwch byd-eang ac yn protestio yn erbyn Rhyfel Fietnam.**

Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, yng Nghaerdydd, roedd hi'n bwrw glaw – yn bwrw hen wragedd a ffyn. Er gwaethaf hynny, heriodd ymwelwyr penderfynol y tywydd a phleidleisio dros heddwch â'u traed. Roedd y digwyddiad yn amserol yn wyneb ystadegau mwy brawychus byth gan y llywodraeth sy'n peintio darlun o'n cartrefi, ei strydoedd, ein hysgolion a'n byd fel llefydd llawn trais ac anoddefgarwch.

**Terfyn ar drais**

Daeth Julie Morgan, AS Gogledd Caerdydd, i'r digwyddiad yn y gwesty. Trafododd y mater a chytunai fod dysgu dulliau di-drais o ddatrys gwrthdaro i blant o bob oed yn un ffordd ymlaen. Mae'r dulliau hyn yn gweithio heddiw mewn ysgolion canol-dinas. Meddai Julie, 'Dwi'n credu'n gryf os rhoddir i bobl ifanc y modd i leihau gwrthdaro yn eu bywydau, y gallwn ddechrau trawsffurfio trais yn ein hysgolion, yn ein cartrefi ac ar ein strydoedd. Byddaf yn gofyn am i ddysgu datrys gwrthdaro yn ddidrais gael ei roi ar y Cwricwlwm Addysg, a byddaf yn codi hyn yn y Senedd cyn gynted ag y caf gyfle.'

**Mwy na breuddwydion**

Roedd sawl mudiad heddwch yn bresennol – yn cynnwys y weinyddiaeth heddwch, Menywod yn Erbyn Rhyfel, Amnest Rhyngwladol, COEXIST a'r Ganolfan dros Gyfiawnder Economaidd a Chymdeithasol. Roedd yno wybodaeth i'w hastudio, digon o drafod, ac adloniant drwy'r dydd gan fyfyrwyr Coleg Cerdd a Drama Cymru, y Klesmer Kollectiv a'r gitarydd gwych Rossini Hayward. Llawer o feddwl dwfn a llawer o hwyl.

**Heddwch-Gwely**

Mae'r Clwydo dros Heddwch wedi bod yn magu nerth. Crewyd Grwp Facebook ac ymunodd cannoedd o bobl o bob rhan o'r byd, gan addo neilltuo un diwrnod o'r flwyddyn yn gyfan gwbl i heddwch. Anfonwyd darnau o fideo, lluniau, cerddoriaeth, meddyliau a strategaethau.

Pe gellid cael ysgolion i ddysgu trawsnewid gwrthdaro go iawn, gallai hyn fod yn drobwynt yn y gwaith o adeiladu diwylliant o heddwch.

**Pippa Bartolotti, sylfaenydd COEXIST**

**heddweithredu:**
**Mae COEXIST yn credu na cheir heddwch gwirioneddol a pharhaus heb sicrhau cyfiawnder economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; mae'r mudiad yn credu mewn rhyddid llefaru, cynaliadwyedd amgylcheddol; gweithredu positif a gwrthsafiad goddefol; tosturi a chariad ar ei ystyr ehangaf. Does ganddo ddim ymlyniad gwleidyddol neu grefyddol, mae'n ymgyrchu i gefnogi hawliau pob person a phob anifail, ac yn cydnabod fod angen i fudiadau heddwch ym mhedwar ban y byd i weithio gyda'i gilydd. I ymuno â rhestr bost COEXIST,**
**t: 01633 822 922**
**e: coexist@pippa-bartolotti.co.uk**
**gweler: www.ministryforpeace.org**

# Dydy Un Dydd ddim yn Ddigon

**Mae Dydd Rhyngwladol Heddwch (Dydd Heddwch) a gynhelir fel arfer ar yr 21$^{ain}$ o Fedi yn gyfle i unigolion, mudiadau a chenhedloedd i greu gweithredoedd unigol o heddwch ar yr un pryd – ac ym mhedwar ban y byd.**

Drwy greu Dydd Rhyngwladol Heddwch ym 1981, nod y CU oedd annog y ddynolryw i gydweithio dros heddwch byd-eang. Dyma ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad Cyffredinol wedi gwyliau'r haf, a'r bwriad oedd y byddai'n atgoffa'r 'holl bobloedd fod [y CU], gyda'i holl gyfyngiadau, yn arf byw yng ngwasanaeth heddwch ac... yn gloch sy'n canu beunydd i'n hatgoffa am ein hymrwymiad parhaol, uwchlaw unrhyw fuddiannau neu anghydfod o unrhyw fath rhyngom, i heddwch.'

**Personol neu gyhoeddus**

Gall unrhyw un yn unrhyw le ddathlu Dydd Heddwch – drwy gynnau cannwyll am hanner dydd, neu eistedd yn myfyrio'n dawel, neu drwy gael eich cydweithwyr, eich sefydliad, eich cymuned neu'ch llywodraeth i gymryd rhan mewn digwyddiad mawr. Mae'r diwrnod yn cael ei ddathlu yn awr gan filiynau o bobl ym mhedwar ban y byd. Gall y digwyddiadau amrywio o gynulliadau preifat neu weithredoedd bach ar y stryd i gyngherddau cyhoeddus a fforymau o gannoedd ar filoedd o bobl. Mae Dydd Rhyngwladol Heddwch hefyd yn Ddydd Cadoediad – personol neu wleidyddol. Mae rhai yn manteisio arno i gymodi yn eu perthynas eu hunain yn ogystal â cheisio ymestyn eu dylanwad i ddod â gwrthdrawiadau mawr ein hoes i ben. Dychmygwch beth allai dydd cyfan o Gadoediad olygu i'r ddynolryw. Os gellir gwneud hynny am ddiwrnod, gallai fod yn barhaol.

**Gwlad yr Haf**

Gallai stynt a ddefnyddiwyd ar y stryd yn gynharach eleni gan Grwp Heddwch Bridgewater ysbrydoli gweithred syml ar gyfer Dydd Heddwch. Mewn ymgais ysgafn-galon i gael pobl i feddwl, bu'r grwp yn dosbarthu sticeri a thaflenni ac yn arddangos gwely (fertigol) 'Caru nid Rhyfela' hardbord, a gwahodd pobl i gael tynnu eu lluniau ynddo. Meddent: 'mae'n rhaid cael nifer o bobl allan yno yn egluro ac yn annog pobl i gymryd rhan – mae'n beth braidd yn gyhoeddus i lawer o bobl ond mae'r achos yn elwa ar y bwrlwm sy'n cael ei greu o gwmpas y weithred'. Mae'n debyg fod pobl ifanc, yn enwedig, wedi mwynhau'r darn bach yma o theatr stryd.

**Cymru**

Hon bydd y bedwaredd flwyddyn o restr y dathlwyd Dydd Heddwch yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Gweler Dyddiadau Dyddiadur am fanylion y digwyddiad eleni. Fe'i trefnir ac fe'i noddir ar y cyd gan CCU Cymru, CCU Caerdydd, Crynwyr Caerdydd, Grwp YDFA Cristnogol Penarth, CND Cymru a Chynefin y Werin.

**heddweithredu: Os oes gennych unrhyw ddigwyddiadau yn gysylltiedig â materion heddwch a chyfiawnder, anfonwch fanylion i'w dosbarthu at http://dir.groups.yahoo.com/group/just-peace/ neu ewch i heddwch@cndcymru.org a dilyn y cyfarwyddiadau er mwyn ymuno ag e-restr 'heddwch cyfiawn' Cymru – a ddefnyddir gan Gynghrair Cymru dros heddwch cyfiawn a therfyn ar drais.**

# Mwy a Mwy o Feiri dros Heddwch

**Gofynnodd CND Cymru yn ddiweddar i bob maer, arweinydd a chadeirydd awdurdod lleol yng Nghymru i ymuno â'r grwp rhyngwladol, 'Meiri dros Heddwch'. Ers hynny, mae chwech arall wedi ymuno – Y Bala, Casnewydd, Aberystwyth, Caerffili, Gwynedd a'r Wyddgrug.**

Er mwyn sicrhau na chaiff arfau niwclear byth eto eu defnyddio fel y gwnaed yn erbyn Hiroshima a Nagasaki, mae'r rhai a oroesodd a'u teuluoedd wedi ymdrechu i ddweud wrth y byd am greulondeb annynol arfau niwclear ac wedi dadlau beunydd y dylai arfau niwclear gael eu gwahardd.

Ar y 24$^{ain}$ o Fehefin 1982, yn Ail Sesiwn Arbennig y CU ar Ddiarfogi, a gynhaliwyd ym Mhencadlys y CU yn Efrog Newydd, cynigiodd Maer Hiroshima ar y pryd, Takeshi Araki, raglen newydd 'i hyrwyddo Cydgadernid Dinasoedd tuag at Lwyr Ddileu Arfau Niwclear'. Roedd y cynnig yn gyfle i ddinasoedd oresgyn ffiniau cenedlaethol a gweithio gyda'i gilydd i bwyso am wahardd arfau niwclear. Wedi hynny, galwodd meiri Hiroshima a Nagasaki ar feiri ym mhedwar ban y byd i gefnogi'r rhaglen. Cynrychiolwyr swyddogol dinasoedd byd-eang sydd wedi derbyn gweledigaeth 1982 y Maer Araki yn ffurfiol yw aelodau 'Meiri dros Heddwch'. Ar y 1$^{af}$ o Orffennaf, roedd yr aelodaeth yn 2,963 o ddinasoedd mewn 134 o wledydd a rhanbarthau.

**heddweithredu: Gofynnwch i'ch maer lleol neu arweinydd eich cyngor i ymuno – gweler www.2020visioncampaign.org am fwy o wybodaeth. Mae sampl o lythyr dwyieithog ar gael i'ch helpu. Cysylltwch ag CND Cymru am fwy o wybodaeth (gweler tud. 8).**

# Coleg Hyfforddi Amddiffyn Sain Tathan

**Y diweddaraf**

**Bydd darllenwyr rheolaidd yn gwybod am yr ymgyrch i atal Coleg Hyfforddi Milwrol Sain Tathan - gweler http://www.cndcymru.org/lang/cy-uk/2008/08/05/sain-tathan-yn-simsanu/ a www.cynefinywerin.org**

**Er na wrthwynebodd yr un blaid wleidyddol mohono pan gafodd ei gyhoeddi'n wreiddiol, mae partneriaid y glymblaid erbyn hyn yn wynebu gwrthwynebiad cynyddol i'r cynlluniau.**

**Plaid Cymru**

Mae sawl cangen etholaeth Plaid Cymru wedi rhoi cynnig yn gwrthwynebu cynlluniau Sain Tathan ger bron Cynhadledd Genedlaethol y Blaid ym mis Medi yn Llandudno. Mae Dr Ian Johnson, ymgeisydd Plaid Cymru dros Fro Morgannwg, yn gobeithio siarad o blaid y cynnig. Meddai: 'Mae'r cynnig yn cysylltu pryderon a beirniadaeth o safbwyntiau moesol, ideolegol, diogelwch, economeg ac ansawdd bywyd.


'Fel llawer o bobl eraill, rwyf wedi bod yn pryderu ynglyn â Sain Tathan ers i'r syniad gael ei gynnig yn y lle cyntaf, ond dim ond nawr, gyda chyhoeddi'r cynlluniau, mae llawer o bobl leol wedi gallu cysylltu gwahanol elfennau'r ymgyrch i atal ei adeiladu.

'Mae teimlad cynyddol ymhlith llawer sy'n byw yn y Fro fod hyn yn cael ei orfodi arnynt, ac mae'r papurau lleol yn ddiweddar wedi bod yn llawn llythyron yn beirniadu'r cynlluniau.'

**Llafur Cymru**

Mae gan fudiad Gwreiddiau Llafur Cymru amheuon difrifol hefyd, ac mewn cyfarfod cyffredinol ym mis Mehefin yn Abertawe, penderfynwyd gwrthwynebu'r Coleg Hyfforddi Amddiffyn, gan grybwyll tri rheswm:

* pryderon moesol yn ymwneud ag egwyddor buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddi milwrol tra bod lluoedd Prydeinig wrthi'n ymgymryd â gweithgareddau digon amheus yn Irac ac Afghanistan, a'r ffaith y bwriedir i'r academi ddarparu hyfforddiant i bobl o gwmnïau o hur-filwyr preifat, a milwyr o wledydd eraill, y gall fod gan rai ohonynt record annerbyniol ar hawliau dynol;



* pryderon gwleidyddol a diwydiannol yn ymwneud â'r ffaith mai dyma'r bartneriaeth gyhoeddus-breifat fwyaf erioed, a fydd yn golygu trosglwyddo cannoedd o bobl o gyflogaeth gyhoeddus i'r sector preifat, a bygwth gyrfeydd yr holl staff sy'n anfodlon trosglwyddo i Sain Tathan o'u lleoliadau presennol;

* pryder ynglyn ag ymarferoldeb y project, ei allu i ddarparu'r swyddi sydd wedi cael eu haddo, ac a ydyw'n ddefnydd y gellir ei gyfiawnhau o symiau anferth a chynyddol o gyllid cyhoeddus.

# Y Drefedigaeth Olaf yn Affrica

**Ym 1975 meddianwyd Gorllewin Sahara gan Morocco – meddiant y barnwyd ei fod yn anghyfreithlon gan y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol a Chyngor Diogelwch y CU.**

Ers hynny, gwadwyd hawl sylfaenol y Saharawi, pobl frodorol y diriogaeth, i hunan-lywodraeth ac maent wedi gwylio cyn-drefedigaethau eraill yn ennill eu hannibyniaeth. Maent yn dal i fod yn bobl alltud, wedi eu caethiwo mewn amodau creulon mewn gwersylloedd ffoaduriaid ar gyrion anialwch y Sahara.

**Hawliau Dynol**

O fewn y diriogaeth a feddiannwyd, mae'r Saharawi heb hawliau gwleidyddol a dynol sylfaenol ac maent yn dioddef annhegwch parhaus, a gwaeth na hynny weithiau (mae rhyw 500 o Saharawi wedi 'diflannu'). Y tu allan i'r diriogaeth, mae rhyw 165,000 o ffoaduriaid a orfodwyd allan gan oresgyniad byddin Morocco yn dal i fod mewn gwersylloedd anghysbell yn yr anialwch yn ne-orllewin Algeria. Maent yn ddibynnol i raddau helaeth ar gymorth (llawer ohono gan yr UE) ac yn fwyfwy rhwystredig na chefnogwyd eu hawl gyfreithiol i ddychwelyd i'w gwlad eu hunain.

Dim rhyfedd y cafwyd adroddiadau fod protestiadau mewn trefi yn y diriogaeth wedi cael eu hatal yn dreisgar gan luoedd Morocco, ac am Saharawi yn cael eu restio a'u harteithio.

**Elwa ar y Meddiannu**

Tra bod miloedd o bobl Saharawi yn brwydro i oroesi yn anialwch Algeria, yn ddibynnol am eu holl anghenion ar gymorth rhyngwladol, mae Morocco yn parhau i ysbeilio adnoddau naturiol cyfoethog eu gwlad i dalu am y meddiant anghyfreithlon. Mae cadfridogion a gwleidyddion sy'n gysylltiedig â'r meddiant yn elwa ar ddiwydiannau pysgota a ffosffadau Gorllewin Sahara. NGO gwirfoddol sy'n gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Saharawi a'r meddiant ar eu gwlad, Gorllewin Sahara, yw Ymgyrch Gorllewin Sahara. Mae'n gweithio i gefnogi'r bobl Saharawi i gefnogi eu hawl i hunan-lywodraeth ac i hyrwyddo hawliau dynol.

**John Gurr**

**heddweithredu:**

**Ymunwch â'r Ymgyrch: am fwy o wybodaeth ymwelwch â www.wsahara.org.uk**
**t: 01974 282 575 e: coordinator@wsahara.org.uk**

**Sgrifennwch at eich AS gan ofyn iddo/iddi sgrifennu at David Milliband, yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Swyddfa Dramor. Pwyntiau y dylid eu gwneud:**

**1. Hawliau Dynol**

**Rhaid i Gyngor Diogelwch y CU sefydlu system o fonitro hawliau dynol yng Ngorllewin Sahara fel yr argymhellodd adroddiad Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd dros Hawliau Dynol, ac fel y mae Amnest Rhyngwladol, Human Rights Watch a Senedd Ewrop yn galw amdano.**

**2. Elwa'n anghyfreithlon ar adnoddau Gorllewin Sahara**

**Mae cronfeydd mawr o ffosffad, pysgodfeydd anferth a chronfeydd posibl o olew a nwy oddi ar yr arfordir yn golygu fod llawer o lywodraethau a chwmnïau Gorllewinol (yn cynnwys rhai Prydeinig) wedi gwneud cytundebau masnach gwerthfawr gyda Morocco, gan herio cyfraith ryngwladol. Mae diystyru'r ymosodiadau parhaus ar hawliau dynol yn tanseilio 'gonestrwydd' bondigrybwyll Prydain, y Cenhedloedd Unedig ac mae'n sarhad ar bawb sy'n credu mewn cyfiawnder.**

# Cael Heddwch i mewn i Ysgolion

**Dros 30 mlynedd yn ôl, arwyddodd y llywodraeth Brydeinig Adroddiad Terfynol Sesiwn Arbennig gyntaf y Cenhedloedd Unedig ar Ddiarfogi ym 1978. Roedd paragraff 106 yn gwbl glir: 'Anogir llywodraethau . . . i gymryd camau i ddatblygu rhaglenni o addysg mewn diarfogi ac astudiaethau heddwch ar bob lefel.' Yn ymarferol, gadawyd yn gwaith i grwpiau heddwch an-lywodaethol i wireddu'r gobaith yma. Ers hynny, mae sawl NGO wedi ceisio cael heddwch a diarfogi i mewn i ysgolion a cholegau.**

Diolch i ddarpariaeth dinasyddiaeth y cwricwlwm heddiw, mae'n haws cael mynediad i ysgolion nag yr arferai fod. Mae rhai ysgolion yn llawn dychymyg. Mae Coleg Comberton ger Caergrawnt, er enghraifft, yn rhoi eu holl gyfnodau 'dinasyddiaeth' ynghyd ar un diwrnod ac yn gwahodd pob NGO perthnasol i ddod i redeg gweithdai. Bydd y diwrnod yn cloi gyda chaneuon heddwch a sesiwn cwestiwn ac ateb ar gyfer y tua 150 sy'n cymryd rhan.

**Deunydd**

Mae'n well gan ysgolion eraill gynnal dosbarthiadau unigol am gyfnod o ryw awr yn ystod y tymor. Fel arfer, byddaf yn dechrau gyda DVD y Mudiad dros Ddileu Rhyfel (MAW), 'War No More' sydd, mewn 15 munud, yn ymdrin â'r holl faterion yn ymwneud â throi cleddyfau'n sychau. Neu mi ddechreuaf gyda chwis deg-cwestiwn defnyddiol MAW, sydd bob amser yn ennyn trafodaeth fywiog. Peidiwch byth â chymryd gormod yn ganiataol. Ni fydd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gweld, heb sôn am drafod, Siarter y CU neu'r Datganiad Hollgyffredinol o Hawliau Dynol.

**Hunan-hyder**

Mae ennyn cwestiynau, unrhyw gwestiynau, yn allweddol i drafodaeth dda. Weithiau mae'n rhaid dweud yn gwrtais wrth athrawon po fwyaf ohonyn nhw sy'n bresennol, y lleiaf o gwestiynau a geir. Dwi'n cofio un ysgol lle'r aeth yr holl athrawon o'r stafell. Roedd y canlyniad yn fendigedig – sesiwn wirioneddol fywiog o sylwadau gonest. Mewn un ffordd, ysgolion bonedd yw'r mwyaf difyr. Mae gan y disgyblion yno y fath hunan-hyder, yn enwedig y bechgyn, nes eu bod yn mynd yn fflat iawn pan ddechreuan nhw ddeall bod atebion i gwestiynau fel 'Beth am Hitler?' neu 'Y bomiau atomig oedd yn unig ffordd o ddiweddu'r Ail Ryfel Byd, ynte?'

Ceir hunan-hyder mewn mannau eraill. Euthum i ysgol yn nwyrain Llundain yn ddiweddar a wynebu bron i 200 o ferched Mwsimaidd ifanc. Roedden nhw'n fwrlwm o egni a syniadau. 'Beth allwn ni ei weud ynglyn â heddwch a rhyfel?' oedd eu cwestiwn allweddol. Mae angen atebion ymarferol a llawn dychymyg i'r cwestiwn hwnnw ym mhob ysgol.

**Sut mae cael mynediad i ysgol yn y lle cyntaf?**

Darganfyddwch pwy sy'n gyfrifol am ddinasyddiaeth yn eich ysgol uwchradd leol, ac awgrymwch destun penodol – hanes arfau niwclear, gwaith y CU neu faint y fasnach arfau erallai. Neu, os ydych yn ddigon hen, sut brofiad oedd yr Ail Ryfel Byd i chi, gyda dogni, masgiau nwy, cyrchoedd awyr, ac ati.

Rwyf wedi ymweld ag ysgolion cynradd ac mae'r ymateb digymell yno yn bleser pur. Wna'i byth anghofio'r plentyn seithmlwydd hynod oedd â'r atebion i holl broblemau'r byd:

'Plîs, Syr, pam na wnewch chi roi'r holl bobl ddrwg ar ynys ar eu pen eu hunain, ac fe allen ninnau gael byd heddychlon wedyn.'

O na fyddai hi mor hawdd â hynny.

**Bruce Kent**

**Drwy garedigrwydd y Mudiad dros Ddileu Rhyfel www.abolishwar.org.uk**

# Y gwcw niwclear yn y nyth

**nodiadau gan PAWB***

• 'Beth sydd gan bwer niwclear sifil i'w wneud ag arfau niwclear?' bydd rhai ymgyrchwyr heddwch yn gofyn. 'Dim byd', yn ôl yr awdurdodau. (O, ac eithrio yn Iran!) Ac eto, ers yr Ail Ryfel Byd, bu cysylltiad clos rhwng defnydd milwrol a sifil o dechnoleg niwclear. Mae penbleth Iran yn dweud wrthym y bydd yn amhosibl gwahanu ymlediad arfau niwclear oddi wrth ddadeni bondigrybwyll pwer niwclear sifil. Rhaid i 'di-niwclear' olygu yn union hynny, ar bob ystyr.

• Mae ffrind a fu'n weithgar yn CND Môn ar un adeg yn dweud wrthym er ei bod yn dal i wrthwynebu arfau niwclear, nad yw hi bellach yn gwrthwynebu pwer niwclear oherwydd newid hinsawdd. Ond dydy'r naill ddim yn datrys y llall. GALL ynni adnewyddol a chadwraeth ynni ymateb i her yr hinsawdd, fel y mae gwaith gwerthfawr aelod o PAWB, Dr Gerry Wolff, wedi dangos. Mae'r garfan niwclear wrthi'n brysur yn ceisio gwyrddgalchu pwer niwclear. Mae rhannau o'r cylch niwclear (cloddio, cludiant, adeiladu, dadgomisynu) wrth gwrs ymhell o fod yn brosesau carbon-isel. Ac mae tystiolaeth bendant, gynyddol fod cyllid hanfodol yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth ddatblygu ynni adnewyddadwy i fwydo'r gwcw niwclear yn y nyth.

• Mae'r llywodraeth yn honni fod record ddiogelwch pwer niwclear sifil ym Mhrydain yn rhagorol. Beth am yr ymgais i gelu tân Windscale ym 1957? 'O, hen hanes yw hynny' medden nhw: 'mater gwahanol yw'r record ddiogelwch ddiweddar'. Ie wir? Ar yr 21ain o Fehefin, datguddiodd yr *Observer* fanylion adroddiad cyfrinachol y cafodd afael arno o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan Mike Weightman, Prif Arolygydd yr Arolygaeth Sefydliadau Niwclear (NII), yn datgelu y bu 1,767 o ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch ar hyd a lled y diwydiant niwclear sifil ym Mhrydain yn y blynyddoedd 2001-08. Roedd gan tua hanner y rheini y gallu i herio system ddiogelwch niclear.

• Mae'r llanast a adwaenir fel Sellafield yn gwaethygu eto fyth. Bu'n rhaid i'r gwaith ailbrosesu tanwydd Magnox B205 gau yn ddiweddar am bum wythnos am fod yr ymbelydredd roedd yn ei ollwng i'r aer yn torri'r terfynau diogelwch. Digwyddodd hyn ar yr un pryd ag y cafodd Wylfa estyniad o naw mis i weithredu ei adweithyddion Magnox (tan ddiwedd mis Rhagfyr 2010). Gwyddem ers amser maith mai B205 yw'r rhan o Sellafield sy'n llygru fwyaf ar Fôr Iwerddon. Ymddengys yn awr fod ei broblemau hyd yn oed yn fwy difrifol nag a dybiwyd yn flaenorol, a rhaid bod hynny'n gwneud ymestyn bywyd gweithredol Wylfa yn gam peryglus dros ben.

• Beth am ddiogelwch y cynllunau ar gyfer adweithyddion newydd sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd? A derbyn ein bod yn mentro i diriogaeth anhysbys gyda'r rhain, does bosib na ddylem fod yn falch fod y cynlluniau hyn yn cael eu harchwilio'n fanwl gan yr NII. Ond pa mor niwtral, mewn gwirionedd, yw'r NII? Yn ôl y *Guardian*, mae'r Arolygaeth wrthi ar hyn o bryd yn recriwtio uwch-reolwyr o'r union gwmnïau sydd am adeiladu'r adweithyddion newydd, fel Bechtel ac Amec. Mae eisoes wedi cyflogi staff technegol o Areva, un o'r cwmnïau sydd wedi rhoi cynlluniau adweithyddion ger bron.

• Mae rhifynnau diweddar o *heddwch* wedi cofnodi'r sefyllfa yn Wylfa: y ffug broses ymgynghori, propaganda camarweiniol ynglwn â ffigyrau cyflogaeth (sy'n cael eu llyncu bob tro gan y cyfryngau), cam-bortreadu'r berthynas rhwng Wylfa ac Alwminiwm Môn, a'r estyniad i drwydded gyfredol yr orsaf. Yr hyn y mae PAWB am ei egluro yn y misoedd sydd i ddod yw hyn: y cynnig y dylid storio, am y ganrif nesaf o leiaf, hen danwydd niwclear sydd ddwywaith mor ymbelydrol â'r deunydd o'r 'etifeddiaeth' bresennol, ar y safle ar lannau gogleddol Ynys Môn. Fe fydd, chwedl Hugh Richards o Gynghrair Wrth-Niwclear Cymru, 'yn rhy dwym i'w drafod'. Mae cwestiwn cael gwared ohono yn dal heb ei ddatrys. Dylai hyn roi uffern o ofn i bawb ar yr ynys, yng Nghymru, yng ngogledd-orllewin Lloegr, yn Iwerddon...

**Mae PAWB yn trefnu cyfarfod cyhoeddus hydref yn Sir Fôn i drafod beth i'w wneud. Bydd y siaradwyr yn cynnwys yr ymgynghorydd niwclear rhyngwladol o fri, Dr John Large. Dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau, gwyliwch y gofodau arferol – a dewch, da chi.**

**Phil Steele a Dylan Morgan**
***PAWB (Pobl Atal Wylfa B)**



## Dysgu gan Chernobyl

**Ar fferm Huw Alun Evans, Hengwrt Uchaf, yng ngogledd Cymru, mae'r defaid yn dal i gael eu sganio am lygredd ymbelydrol, fel y maent wedi gwneud ers 1986. Mae yntau'n cofio nad oedd gan weision sifil, bryd hynny, unrhyw syniad y byddai'r llygredd yn para cyhyd. Mae ei ddefaid yn methu'r profion ymbelydredd os buont i fyny ar y mynydd, ond mae'r lefelau yn disgyn ar ôl dod â nhw i lawr i bori ar dir is, gan fod y tyfiant mewn ardaloedd sy'n derbyn llai o law yn llai llygredig.**

Mae effeithiau tymor-hir damwain niwclear a gollwng radio-niwclidau i mewn i'r amgylchedd yn amlwg yn ffigyrau eleni sy'n dangos llygredd o ddamwain niwclear Chernobyl a ddigwyddodd 1500 milltir o ogledd Cymru. Mae 370 o ffermydd yn Mhrydain yn dal i fod o dan gyfyngiadau ar ddefnydd tir a magu a symud defaid oherwydd yr ymbelydredd, ac mae 355 o'r rhain, a 180,000 o ddefaid, yng Nghymru.

Dywedodd David Lowry, aelod o Nuclear Waste Advisory Associates, fod y ffigyrau'n dangos 'peryglon didrugaredd' ymbelydredd sy'n cael ei wasgaru i mewn i'r amgylchedd, boed o Chernobyl yn Ukrain, filoedd o filltiroedd i ffwrdd a 23 blynedd yn ôl, neu dros ddegawdau o bencadlys llongau tanfor niwclear Faslane yn yr Alban, fel y datgelwyd yn y newyddion yn gynharach eleni.

Dywedodd, er bod gweinidogion y llywodraeth a'r diwydiant niwclear sy'n pwyso am adeiladu hyd at 11 o adweithyddion niwclear newydd ledled Cymru a Lloegr, yn hoffi dweud fod pwer niwclear 'yn lân ac yn wyrdd', fod y ffigyrau am alldafliad Chernobyl yn gwrthbrofi'r honiadau hynny.

Dywedodd yr Asiantaeth Safonau bwyd fod y radio-cesiwm-137 a ollyngwyd ar ucheldiroedd Prydain yn symud yn rhwydd o'r pridd i'r glaswellt ac yn crynhoi mewn defaid. Pennodd y Comisiwn Ewropeaidd derfyn diogelwch o uchafswm o 1,000 becquerel y kilogram (bq/k) o radio-cesiwm mewn cig dafad yr effeithiwyd arno gan y ddamwain er mwyn diogelu defnyddwyr. O dan gynllun 'nodi a gollwng' yn yr ardaloedd o dan gyfyngiadau, rhaid i ffermwr sydd am symud anifeiliaid allan o'r ardal eu cael wedi eu monitro â dyfais law.

Cafodd mwy na 130,000 o bobl eu symud o gyffiniau agos Chernobyl a'u hail-leoli mewn rhannau eraill o Ukrain a Belarus, ac mae arbenigwyr yn dweud na ddylid ffermio'r ardal am o leiaf 200 o flynyddoedd. Mae gwaddol o salwch yno, ac mae effeithiau cyfunedig salwch a chamffurfiant a achoswyd gan ymbelydredd a thlodi a straen meddyliol o ganlyniad i'r ddamwain wedi effeithio'n ddifrifol ar boblogaeth Belarus, yn enwedig.

**heddweithredu:**
**Mae gan PAWB fforwm ebost gyda'r holl newyddion niwclear diweddaraf a gohebiaeth yr ymgyrch ar gyfer gwrthwynebwyr i bwer niwclear. Os hoffech danysgrifio, cysylltwch â: huwjones7@googlemail.com I chi ddefnyddwyr Facebook, mae PAWB yn cyfranogi yn y wefan ehangach Stop Wylfa – No Nuclear in Wales. Ymunwch yn y drafodaeth, da chi. Gwefan PAWB yw http://www.stop-wylfa.org/**

**YN EISIAU!** **Pobl â dementia sydd wrthi'n ymgyrchu**

Mae Grwp Dementia Bradford ym Mhrifysgol Bradford yn astudio'r ffordd mae pobl â dementia yn chwarae rhan mewn dadlau dros newid. Ar hyn o bryd, mae ganddynt sampl o bobl o'r Alban a gogledd Lloegr ond fel yr eglurodd ymchwilydd, Ms EJ Milne, 'maen nhw'n eiddgar i gynnwys llais Cymru'. Maen nhw felly yn chwilio am bobl sydd wedi cael diagnosis o dementia sydd wrthi'n ceisio newid pethau neu sy'n siarad neu'n ymgyrchu dros unrhyw achos. Bydd yr ymchwil yn holi pam y dewisodd pobl chwarae rhan mewn ymgyrchu, a sut mae eu gweithgareddau yn effeithio ar yr unigolyn, eu teulu a'u bywyd yn gyffredinol. Ni waeth pa mor fawr neu pa mor fach yw cyfranogiad yr unigolyn, hoffai'r grup glywed gan unrhyw ddioddefwyr dementia sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd yn y gymuned leol, arwyddwyr deisebau neu sgrifenwyr llythyron i'r papur – gall fod yn rhywun sy'n sgrifennu blog ymgyrchu neu sy'n gwirfoddoli ei sgiliau
Bydd y project, a fydd yn golygu mis o gadw dyddiadur ysgrifenedig neu lafar, yn cychwyn ym mis Awst felly, da chi, dewch i gysylltiad yn awr. Mater gwirfoddol yw cymryd rhan, a gall unrhyw un sy'n cymryd rhan dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch ag EJ Milne t: 01274 236 494 (gadewch neges, da chi, ac fe ffoniwn yn ôl) neu e: socialchange@bradford.ac.uk**

# dyddiadau dyddiadur

**1-8 Awst Y Bala**
**Yr Eisteddfod Genedlaethol**
Ymwelwch â ni yn y Babell Heddwch

**6 Awst Y Bala**
Pabell Cytûn ar y Maes 2pm
**Gwasanaeth i goffáu Hiroshima** o dan arweiniad y Parch Guto Prys ap Gwynfor. Sioe sleidiau gan Helen Lewis a John Butler am 'lanhau ethnig' yn Jerwsalem. Trefnwyd gan Gymdeithas y Cymod t: 01286 830 913
e: cymdeithasycymod@btinternet.com

**6 Awst Caer**
8pm **Coffáu Hiroshima a Nagasaki â Blodau** Cwrdd wrth stondin y band
Er cof am bawb a fu farw neu a ddioddefodd o ganlyniad i'r bomio atomig ym 1945 ac yn y gred na ddylai hyn byth ddigwydd eto. Darlleniadau, cyfnod o dawelwch, a gollwng blodau gwynion ar yr afon. Bydd y darlleniad terfynol wrth y goeden goffa ar lan ddeheuol yr afon. Trefnwyd gan Bwyllgor Tystiolaethu Gweithredol Crynwyr y Wirral a Chaer. t: 01244 679 051
e: dai.owen@virgin.net

**13-16 Awst Merthyr Tudful**
**Gwersyll Hinsawdd Cymru**
Tynnu sylw rhyngwladol at ragrith y llywodraeth ar bwnc newid hinsawdd a sicrhau fod Cymru'n chwarae ei rhan yn y mudiad byd-eang cynyddol o wersylloedd gweithredu ar yr hinsawdd. Bydd pob agwedd ar y gwersyll yn *mabwysiadu ffyrdd o ddatrys newid* hinsawdd a bydd gweithdai'n ymdrin â phopeth, o wyddoniaeth hinsawdd a thechnegau gweithredu uniongyrchol i DIY a chrefftau traddodiadol. Bydd cornel plant yn diddanu gwersyllwyr ifanc am y pedwar diwrnod.m: 07040901147
e: info@climatecampcymru.org
www.climatecampcymru.org

**14-16 Awst Machynlleth**
**El Sueño Existe - Gwyl Victor Jara**
Gwyl o gerddoriaeth o Gymru ac o America Ladinaidd, perfformio a thrafod, i ddathlu Victor Jara a ganai am y freuddwyd o fyd lle câi'r tlawd a'r difreintiedig bwer ac urddas. Bydd llysgenhadon Bolifia i Brydain a Ffrainc yn bresennol, ynghyd â Menna Machreth a Dafydd Iwan. Cynhelir y gynhadledd yn y Tabernacl, Machynlleth 10am – 4.30pm. Mynediad am ddim. Cyngerdd gyda'r nos yng ngerddi'r Plas, Machynlleth.
t: 01654 702 166
e:tonycorden@hotmail.com
www.elsuenoexiste.com

**29 Awst Llandudno**
Happy Valley 2pm-4pm
**Picnic Heddwch Blynyddol Grwp Heddwch Sirol Conwy** Bydd hwn, y trydydd picnic heddwch blynyddol, yn gyfle i gwrdd â phawb yn y cylch sy'n gweithio dros heddwch, a chael hwyl. Croeso i bawb. Thema eleni yw 'Dewch â rhywbeth Lleol gyda chi i'w fwyta'
e: gramorg1@googlemail.com

**1-2 Medi Llundain** Tw'r Cyfeillion
**Cynhadledd: 'The Citizen and the Law of Armed Conflict'**
Trefnwyd gan y Sefydliad dros Atebolrwydd y Gyfraith a Heddwch (INLAP) a Phroject Llys y Byd, gyda chefnogath mudiadau heddwch eraill. Ymateb yw hwn i'r anhawster a wynebir wrth geisio cyfathrebu â'r llywodraeth am faterion yn ymwneud â'r gyfraith ryngwladol. Mae'n canolbwyntio ar anghenion gweithredwyr, gweithwyr NGO ac unigolion sydd am ddysgu mwy er mwyn gallu gweithredu'n fwy effeithiol. Diwrnod 1: y cefndir i'r problemau – bydd siaradwyr yn adolygu agweddau perthnasol ar y gyfraith ryngwladol a'r ffordd y mae cynrychiolwyr etholedig a llywodraethau yn ymateb i gwestiynau. Mae'r siaradwyr yn cynnwys John McDonnell AS, Nick Grief, Paul Dorfman a'r Dr Nick Ritchie. Diwrnod 2: gweithdai ar well ffyrdd o gyfathrebu.
t: 01323 844 269
e: geowcpuk@gn.apc.org

**2 Medi Aberystwyth**
Y Morlan 8.15pm
**Cyfarfod Grwp Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth**
e:tpjo3@btopenworld.com

**7 Medi Bangor**
Ty Cwrdd y Cyfeillion, Dean Street
6.30pm **Cyfarfod Grwp Bangor ac Ynys Môn**. Cyfarfod nesaf y grwp, ar ôl gwyliau'r haf. t: 01248 490 715
e: phil_steele@btinternet.com

**18 Medi Caerdydd**
Y Deml Heddwch
**Dydd Heddwch** Digwyddiad coffa i nodi Dydd Rhyngwladol Heddwch, gan ddod â phlant o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol ynghyd. Bydd plant yn archwilio eu syniadau o heddwch drwy berfformio, celf ac athroniaeth. Digwyddiad yn agored i ysgolion yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Gweler y stori ar dud. 5. Cysyllter ag: Ona Flindall, CCU Cymru. t: 02920 228 549
e: onaflindall@wcia.org.uk

**20 Medi Porthmadog**
Capel Ebeneser 7.30pm
**Cyfarfod cyhoeddus: Cymod a Heddwch - Israel a Phalesteina.** Trefnwyd gan gell Dwyryd a Glaslyn o Gymdeithas y Cymod. Adroddiad gan John Butler a Helen Lewis am eu hymweliad diweddar â Phalesteina.
t: 01286 830 913
e: cymdeithasycymod@btinternet.com

**Medi 24 Caernarfon**
Yr Institiwt, Allt Pafiliwn, 7yh am 7.30
**Gweld y Gwahaniaeth - ffilm: Amandla!** Y frwydr yn erbyn Apartheid, trwy gerddoriaeth De Affrig.
e: benica@gn.apc.org

**1 Hydref** (a phob dydd Iau yn ystod y tymor) **Porthmadog** 7 – 9pm
**Cwrs ar Ddidreisedd** yn seiliedig ar y Llawlyfr Hyffforddi Didreisedd i Gymru Trefnwyd gan Goleg Harlech WEA(N). Am fanylion, gweler y prosbectws,
t: 01766 515 298 www.harlech.ac.uk

**3 Hydref** (a dau Sadwrn arall), **Caernarfon** 10am – 5pm, festri Capel Salem **Cwrs didreisedd**. Trefnwyd gan Grwp Heddwch a Chyfiawnder Arfon.
e: benica@gn.apc.org

**10 Hydref** (a sesiynau rhyngrwyd tan Rag.14) **Aberystwyth** 10am – 5.00pm
**Tlodi, Cyfiawnder a Datblygiad - cwrs allanol £50** Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes Prifysgol Aberystwyth
t: 01970 621 580 e: hhh@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/sell/courses/llllearn

**Dysgwch beth sy'n digwydd ledled Cymru - tanysgrifiwch i e-restr justpeace drwy anfon ebost: just-peace-subscribe@yahoogroups.com**

**Hydref 29 Caernarfon** Yr Institiwt, Allt Pafiliwn 7yh am 7.30
**Gweld y Gwahaniaeth - ffilm: McLibel. Stori David a Goliath y Ddau McLibel** - postmon a garddwraig a heriodd McDonalds yn yr achos hiraf yng nghyfraith Lloegr.
e: benica@gn.apc.org

**30 Hydref Caerdydd**
Y Deml Heddwch 10.00 am – 5.00pm
**Cwrs Penwythnos: Rhyfel a'r Cyfryngau** Ymchwilio i'r ffordd y bydd y cyfryngau yn casglu a chyflwyno adroddiadau rhyfel, 'y gelyn', ac ymyriad milwrol a dynol. Ni chynhwysir prydau bwyd a llety. t: 01970 621 580
e: hhh@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/sell/courses/llllearn

**31 Hydref Llundain**
Toynbee Studios 9.45am – 5.00 pm
**Cynulliad Prydeinig yr Ymgyrch i Ddileu'r Fasnach Arfau 2009**
Diwrnod o siaradwyr, trafod ac ysbrydoliaeth i ddarparu'r ffeithiau, y sgiliau a'r angerdd y bydd eu hangen arnoch er mwyn herio cefnogaeth y llywodraeth i'r fasnach arfau a mynd i'r afael â 'sbin' y diwydiant arfau. Gweithdai – ffeiri arfau, hur-filwyr corfforaethol, herio dadleuon swyddi y diwydiant arfau. Cyfle i hogi'ch sgiliau er mwyn gallu manteisio ar y cyfryngau, lobïo i ennill … a mwy. £5 cyflogedig; £2 digyflog. Darperir te, coffi a chinio llysieuol ysgafn.
t: 020 7281 0297 e: julia@caat.org.uk
Bwciwch ar-lein: www.caat.org.uk/events/

**21 Tachwedd Caernarfon**
Festri Capel Salem 10 - 4
**Cwrs didreisedd seiliedig ar y Llawlyfr Hyfforddi Didreisedd i Gymru** a drefnir gan Grwp Heddwch a Cyfiawnder Arfon. Sesiynau 4 - 6: Beth all didreisedd ei gyflawni mewn gwrthdrawiadau; Ymatebion i rym; Gwrthdaro a newid hinsawdd.
e: benica@gn.apc.org

**26 Tachwedd Caernarfon**
Yr Institiwt, Allt Pafiliwn 7yh am 7.30
**Gweld y Gwahaniaeth - ffilm: El Baño del Papa** (Toiled y Pab). Ffilm o Uruguay, am ymweliad y Pabâ thref fechan, a brwydr y bobl i elwa ohono - enillydd sawl wobr - ffilm ddoniol sy'n eich cyffwrdd. e: benica@gn.apc.org

**27- 28 Tachwedd Sir Benfro**
Canolfan Ffald y Brenin
**Gwylnos Cymdeithas y Cymod**
e: cymdeithasycymod@btinternet.com

***Heddychwr Mawr Cymru***
E.H. Griffiths
Cofiant George M.Ll. Davies
**Heddychwr Cristnogol mwyaf Cymru**
**Cyfrol 1 ar gael yn awr mewn trosiad Saesneg**
**Ar gael i'w lawrlwytho (£1.25) neu fel llyfr am £5**
**Edrychwch ar www.cymdeithasycymod.org.uk**
**(cliciwch ar adnoddau a chliciwch ar 'George M Ll Davies')**


## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Golygydd:**
Jill Gough
0845 313 8 414
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
01591 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com




## cysylltiadau cnd cymru


**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
01824 709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com

Llew Smith

George Crabb
01446 774 452
georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk

Olwen Davies
(y canolbarth)
01970 611 994

Ray Davies (de cymru)
029 20 889 514

John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com

**aelodaeth & aelodau**
9,Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
01970 626 740
michael.freeman9@btinternet.com

**masnachu**
Kate Gwynfyd-Sidford & Del Gwynfyd-Harris
coney@gn.apc.uk
01974 831 575

**trysorydd**
Chris Edmondson

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Gough, CND Cymru, Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys, Talywaun, Pontypool NP4 7EF
0845 313 8 414
heddwch@cndcymru.org